

Trywydd: Technegau Disgyblu (Cerddoriaeth)

– Perfformio a chyfansoddi

Trywydd: Technegau Disgyblu (Cerddoriaeth)					
	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Gwybodaeth a Sgiliau	Gwybod/deall: - Caiff prosesau a thechnegau cerddoriaeth eu categoreiddio'n fras fel perfformio a chyfansoddi - Mae rhyngweithio'n briodol â'r curiad mewn cerddoriaeth yn hanfodol wrth berfformio a chyfansoddi - Mae perfformio a chyfansoddi gan ddefnyddio technoleg yr un mor bwysig a pherthnasol â chyfansoddi gan ddefnyddio prosesau heb dechnoleg Defnyddio/gallu: - Osgo sylfaenol wrth berfformio/archwilio offerynnau - Ymlacio'r ysgwyddau wrth ddefnyddio'r llais - Anadlu mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer y brawddegau cerddorol - Defnyddio'r llais mewn ffyrdd priodol a gwahanol wrth siarad, llafarganu, gwneud seiniau lleisiol a chanu, ac adnabod y gwahaniaethau - Canu â chyferbyniadau dynamig, dysgu brawddegau a chaneuon ag ystod fach (e.e. 6ed) drwy glyw - Dal a defnyddio offerynnau yn briodol gan ystyried eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill - Chwarae patrymau rhythmig syml ar offerynnau wedi'u dysgu drwy glyw a dangos cyferbyniad dynamig - Defnyddio meddalwedd i ddechrau archwilio a chreu cerddoriaeth e.e. Chrome Music Lab, Garageband, Google Creatability, Loopesque Lite, Bandlab, Launchpad ac ati - Creu syniadau cerddorol byr yn ddigifyngiad - Cadw cofnod o greadigaethau cerddorol gan ddefnyddio technolegau a sgorau graffig	Gwybod/deall: - mae nodiant yn ffordd o gynrychioli sain ar ffurf weledol, a nodiant gorllewinol safonol yw'r nodiant a ddefnyddir fwyaf, ond ceir systemau nodiant eraill - gellir golygu seiniau wedi'u recordio gan ddefnyddio technoleg am amrywiaeth eang o resymau ac mae'n rhan bwysig o'r diwydiannau cerddoriaeth a'r cyfryngau - caiff cerddoriaeth ei pherfformio a'i chyfansoddi am lawer o resymau e.e. yn broffesiynol, yn gymdeithasol, yn therapiwtig ac ati ac mae'n ddiwydiant byd-eang amlhaenog Defnyddio/gallu: - Canu brawddegau a chaneuon, wedi'u dysgu drwy glyw ac o nodiant, gan ddefnyddio ystod ehangach (e.e. wythfed) a chan symud fesul cam yn bennaf - Chwarae patrymau rhythmig syml ar offerynnau wedi'u dysgu drwy glyw a chan ddefnyddio nodiant gorllewinol safonol (hanner brifau a minimau) - Darllen o nodiant – rhythmau yn unig - Chwarae offerynnau â thraw gan ddefnyddio ystod o hyd at bump nodyn - Defnyddio meddalwedd i ddechrau archwilio a chreu cerddoriaeth ag adrannau cyferbyniol, a defnyddio amrywiaeth o ddynameg a thempo - Gwneud gwaith byrfyfyr a chynllunio syniadau cerddorol byr â thraw (e.e. 3 thraw) a rhythm (e.e. 1 bar) - Recordio a golygu amrywiaeth o seiniau fel y bo'n briodol, gan ystyried dynameg a hyd	Gwybod/deall: - Nid dim ond offeryn ar gyfer canu yw'r llais, gellir ei ddefnyddio ar gyfer rapio a bit bocsio hefyd - Gellir trin pob sain/gwead gan ddefnyddio amrywiol dechnegau a thechnolegau i greu ac amrywio'r naws a'r awyrgylch - Gellir cynrychioli cerddoriaeth gan ddefnyddio amrywiol fathau o nodiant; fodd bynnag, gall y perfformiwr ddehongli nodiannau yn ôl ei ddychymyg i gyfleu amrywiol syniadau, teimladau ac emosiynau - Mae meithrin gwell reolaeth dechnegol dros offeryn neu dechnoleg yn gwella'r gallu i ddatblygu cyferbyniad mewn perfformiad yn sylweddol Defnyddio/gallu: - Canu brawddegau a chaneuon, wedi'u dysgu drwy glyw ac o nodiant, gan ddefnyddio ystod gynyddol (e.e. wythfed a mwy) ac yn gynyddol gan ddefnyddio symudiadau cysylltiol - Defnyddio'r llais a chanu mewn tiwn gan ymlacio'r ên ac ynganu'n glir, gyda thôn cyson ar draws yr ystod dynameg a llafariaid clir ac agored - Chwarae patrymau rhythmig ar offerynnau wedi'u dysgu drwy glyw a chan ddefnyddio nodiant gorllewinol safonol (hanner brifau, minimau a chrosietau) - Darllen nodiant – cyflwyno traw (e.e. erwydd un llinell hyd at dri thraw) a TAB fel y bo'n briodol - Chwarae offerynnau â thraw gan ddefnyddio ystod o wythfed a mwy â chyferbyniad dynamig a newidiadau mewn tempo - Dechrau chwarae cordiau (hyd at 3 chord) gan ddefnyddio offerynnau hygyrch - Defnyddio meddalwedd i ddechrau archwilio a chreu cerddoriaeth ag amrywiol haenau, gweadau a graddfeydd/moddau - Gwneud gwaith byrfyfyr a chynllunio syniadau cerddorol â thraw (e.e. 5 traw) a rhythm o fewn strwythur e.e. cwestiwn ac ateb, cyflwyniad, dros lŵp, riff, ostinato ac ati	Gwybod/deall: - Mae perfformio yn gofyn am gywirdeb o ran traw, rheolaeth dros ddynameg a thôn, tempo addas a pharhaus, ymdeimlad o rythm a brawddegau, rhwyddineb, rhyngweithio â pherfformwyr eraill lle y bo'n briodol, ac ymgysylltu â'r gynulleidfa - Repertoire cynyddol o nodiant gorllewinol safonol - Mae technoleg yn adnodd perfformio a chyfansoddi dilys h.y. gweithio fel DJ, rheolyddion caledwedd ac ati Defnyddio/gallu: - Chwarae gydag ymdeimlad o ensemble ac ymatebolrwydd i'r grŵp, rheoli sain yn gadarn (boed ar offeryn neu gan ddefnyddio'r llais) gan ddefnyddio dynameg yn briodol, cywirdeb o ran traw, gydag ymdeimlad o rythm a brawddegau wedi'u llunio'n dda, sy'n arwain at berfformiad sy'n cyfleu bwriad y darn - Gwneud gwaith byrfyfyr, ymarfer a pherfformio gan roi sylw i dechneg, gan gynnwys technegau ar gyfer nodweddion arddulliadol - Perfformio gan ymgysylltu rywfaint â'r gynulleidfa - Canu brawddegau a chaneuon, wedi'u dysgu drwy glyw ac o nodiant, gan ddefnyddio ystod sy'n briodol ar gyfer llais y dysgwr - Darllen nodiant – yr erwydd (trebl), enwau nodau ar yr erwydd gan gynnwys arwyddion C ganol, llonnod, meddalnod a naturiol, a'u diddymu, a TAB fel y bo'n briodol - Chwarae cordiau (hyd at 6 chord) gan ddefnyddio offerynnau hygyrch - Creu dilyniadau cordiau sy'n briodol ar gyfer cynnwys y cwricwlwm - Trin offerynnau meddalwedd er mwyn archwilio a chreu gweadau newydd ar gyfer effaith fwriadedig	Gwybod/deall: - Mae perfformio yn gofyn am gywirdeb o ran traw, rheolaeth dros ddynameg a thôn, tempo addas a pharhaus, ymdeimlad o rythm a brawddegau, rhwyddineb, rhyngweithio â pherfformwyr eraill lle y bo'n briodol, ac ymgysylltu â'r gynulleidfa - Defnyddir manylder cynyddol mewn nodiant gorllewinol safonol - Mae technoleg yn adnodd perfformio a chyfansoddi dilys - Defnyddir technoleg i gefnogi perfformiadau byw - Pwysigrwydd trwyddedu a breindaliadau yn y diwydiant cerddoriaeth a'r diwydiant adloniant ehangach e.e. PRS ar gyfer cerddoriaeth, lawrlwytho anghyfreithlon ac ati - Perfformiadau cerddorol Defnyddio/gallu: - Cynhyrchu tôn a dynameg â gwell rheolaeth a pherthnasedd ar gyfer repertoire cynyddol o arddulliau wrth berfformio - Meithrin gwell dealltwriaeth o'r amrywiol rolau o fewn ensemble - Gwella sgiliau technegol a mynegiannol ymhellach fel perfformiwr - Dewis, trin a chyfuno elfennau cerddorol wrth archwilio a chreu cerddoriaeth er mwyn cyfleu a chynrychioli amrywiol syniadau, teimladau, a hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol - Adnabod, gosod a defnyddio dulliau mwyhau ac atgyfnerthu sain sylfaenol yn ddiogel fel y bo'n briodol at ddiben digwyddiad/achlysur - Defnyddio eiddo deallusol ar gyfer perfformio a chyfansoddi gan gydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau sy'n ymwneud ag eiddo deallusol fel y bo'n briodol i'r cynnwys a'r cyd-destun

Trywydd: Technegau Disgyblu (Cerddoriaeth)					
	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Geirfa	- Osgo - Canu - Llafarganu - Siarad - Offerynnau - Sgôr graffig - Ymarfer, perfformio - Recordiadau sain - Dynameg	Nodiant - Hanner brifau a seibiau hanner brif - Minimau a seibiau minim - Crosietau a seibiau crosiet - Parau cwafer Tonnau sain - Lefel recordio - Mewnbwn - Osgled – lefel sain/dynameg - Golygu – sleisio Gweithfannau Sain Digidol (DAW) - Llinell amser - Bpm = curiadau y funud - Lefel sain Gwaith byrfyfyr Cyfansoddi Perfformio Geiriau	Nodiant - Arwyddion amser – 3/4, 4/4 Gweithfannau Sain Digidol (DAW) - Haenau – traciau - Lwpiau - Offerynnau meddalwedd - Curiadau - Graddfa a chywair	Nodiant - Arwyddion amser – 2/4, 3/4, 4/4, 6/8 - Crosiet dotiog a saib crosiet dotiog - Cwafer unigol a saib cwafer - Erwydd - Cleff y trebl - Llonnodau, meddalnodau ac arwyddion naturiol Gweithfannau Sain Digidol (DAW) - Hidlydd - Datsain - Atsain ac oediad - Ystumio Technoleg - Meddalwedd DJ - Rheolyddion caledwedd e.e. Launchpad - Paru curiadau - Newis traw - Samplu	Sound reinforcement - Microffonau - Blychau mewnbwn uniongyrchol (DI) - Ceblau - Cymysgwr - Mwyaduron - Seinyddion - Offer allfwrdd e.e. prosesydd effeithiau, hafalydd Nodiant - Cleff y bas - Llinellau estyn - Tripledï Musical devices Articulation Common instrumental techniques Multi-track recording
Profiadau a Nodweddion	- Mae’n hanfodol y caiff amrywiaeth o weithgareddau eu defnyddio sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu - Defnyddio’r llais (gan gynnwys canu), offerynnau (gan gynnwys offerynnau taro di-draw), defnyddio’r corff fel offeryn taro a ffynonellau sain eraill i berfformio fel rhan o ensemble ar ffurf unsain, â cherddoriaeth a chaneuon cyfarwydd yn ogystal â’r rheini a ddefnyddir gan grwpiau yn y gymuned leol - Amrywiaeth o weithgareddau ymarferol â’r llais ac offerynnau i efelychu a pharu rhythmau a thrawiau, er enghraifft, galw ac ateb (rhythm a thraw), curo dwylo/canu atseinïol - Defnyddio’r corff fel offeryn taro yn ogystal ag amrywiaeth o offerynnau taro di-draw e.e. ysgydwyr, crafwyr, drymiau llaw, morthwylion/curwyr - Defnyddio meddalwedd a thechnolegau hygyrch fel adnodd ar gyfer perfformio a chyfansoddi - Perfformio gyda’r dosbarth mewn gwasanaeth ysgol ac i gynulleidfa - Rhannu archwiliadau a chreadigaethau cerddorol â’r dosbarth a’r gymuned leol - Gwylïo a gwrando ar grŵp o gantorion a/ neu gerddorion byw	- Mae’n hanfodol y caiff amrywiaeth o weithgareddau eu defnyddio sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu - Fel rhan o ensemble, perfformio cerddoriaeth o amrywiol ddiwylliannau yng Nghymru a thu hwnt, ar ffurf unsain yn ogystal â rhannau ychwanegol gan gynnwys cyfeiliant syml - Ymarfer a pherfformio cerddoriaeth - Defnyddio’r corff fel offeryn taro yn ogystal ag amrywiaeth o offerynnau taro di-draw e.e. ysgydwyr, crafwyr, drymiau llaw, morthwylion/curwyr - Defnyddio meddalwedd a thechnolegau hygyrch fel adnodd ar gyfer perfformio a chyfansoddi - Creu syniadau cerddorol o amrywiaeth o gyfryngau - Gwylïo a gwrando ar grŵp o gantorion a/neu gerddorion byw y tu allan i amgylchedd yr ysgol yn perfformio cerddoriaeth sy’n cynrychioli diwylliannau o Gymru a thu hwnt mewn ffordd ddilys	- Mae’n hanfodol y caiff amrywiaeth o weithgareddau eu defnyddio sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu - Perfformio cerddoriaeth â rhannau fel ensemble, gyda chyfle i chwarae rhan yn annibynnol, gan gynnwys rapio a bît bocsio - Perfformio cerddoriaeth sy’n gydnaws â’r elfennau cerddorol sy’n cael eu hastudio - Offerynnau hygyrch sy’n hwyluso ymdrechion i chwarae cordiau e.e. iwcaililis, pianos, allweddellau (defnydd cyson o gordiau un bys), meddalwedd ar sgriniau cyffwrdd ac ati - Gwylïo a gwrando ar gerddor/cerddorion lleisiol yn canu, yn rapio ac yn bît bocsio’n fyw, ac yn defnyddio offer electronig/ digidol	- Mae’n hanfodol y caiff amrywiaeth o weithgareddau eu defnyddio sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu - Dylid perfformio repertoire eang o gerddoriaeth, gan ddefnyddio’r llais ac offerynnau, gan ddangos manylder cynyddol – dylai’r repertoire gyfateb i ddyfnder ac ehangder yr hyn a gaiff ei astudio o ran yr elfennau cerddorol - Dylai’r repertoire a’r ymarferion ymarferol hwyluso datblygiad technegol a’r cyfle i berfformio’n unigol	- Mae’n hanfodol y caiff amrywiaeth o weithgareddau eu defnyddio sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu - Profiadau dilys yn amgylchedd yr ysgol a’r tu allan i amgylchedd yr ysgol mewn perthynas â pherfformiadau byw a/neu greu cerddoriaeth newydd - Dylid cael profiad o gerddoriaeth amrywiol o wahanol gyfnodau, lleoedd a diwylliannau, ac yn cynrychioli amrywiaeth o hunaniaethau